# Asesiad Llwybrau Cerdded i Ysgolion RhCT

## Gilfach-goch i Ysgol Gymuned Tonyrefail

Mawrth 2025



REDSTART™

## YMWADIAD CYFFREDINOL:

Cafodd yr adroddiad yma ei baratoi gan Redstart o blaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cleient") ac mae at ddefnydd a budd y Cleient yn unig yn unol â'r cytundeb rhwng y Cleient a Redstart y cafodd gwasanaethau Redstart eu cyflawni oddi tano. Heblaw am atebolrwydd nad oes modd ei eithrio yn ôl y gyfraith, dydy Redstart ddim yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti arall mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad yma.

Er y cymerwyd gofal wrth lunio'r adroddiad yma, mae'r casgliadau a'r argymhellion sydd ynddo yn seiliedig ar wybodaeth a gafodd ei darparu gan drydydd parti ("Gwybodaeth Trydydd Parti"). At ddibenion yr adroddiad yma, mae Redstart wedi dibynnu ar yr Wybodaeth Trydydd Parti a chymryd yn ganiataol ei bod yn gywir ac yn gyflawn. Nid yw wedi gwirio gwybodaeth o'r fath yn annibynnol at ddibenion yr adroddiad yma. Dydy Redstart ddim yn gwneud unrhyw gynrychiolaeth, gwarant nac ymgymeriad (datganedig neu ymhlyg) yng nghyd-destun Gwybodaeth Trydydd Parti a dydy Redstart ddim yn cymryd nac yn derbyn cyfrifoldeb am ddigonolrwydd, cyflawnrwydd na chywirdeb yr adroddiad yng nghyd-destun yr Wybodaeth Trydydd Parti sy'n sail iddo.

## RHYDDID GWYBODAETH:

Mae Redstart yn deall ac yn cydnabod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf") ac mae'n llwyr werthfawrogi y gallai fod yn ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd ganddo o dan delerau'r Ddeddf.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 1
2. Ailiniad Polisi 2
3. Gweithdrefnau 4
4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded 5
5. Arolygon Cerddwyr / Traffig 22
6. Materion Cymdeithasol 27
7. Data Gwrthdrawiadau 28
8. Trosolwg Llwybr 29
9. Casgliad ac Argymhellion 32

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Redstart wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) i gynnal asesiad i weld a oes llwybr cerdded ar gael rhwng Canolfan Feddygol Cwm Gwyrd ac Ysgol Gymuned Tonyrefail, Tonyrefail.

1.2 A siarad yn gyffredinol, bydd llwybr ar gael os yw'n ddigon diogel i ddisgybl gerdded ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn priodol, gan ddibynnu ar oedran y disgybl. Yn rhan o waith asesu’r llwybr cerdded, bydd asesiad o'r peryglon sy’n wynebu plant a’r rhieni/cynhalwyr sy’n eu hebrwng ar hyd y llwybr rhwng y cartref a’r ysgol angen yn cael ei gynnal.

1.3 Bydd asesiadau o’r fath yn dilyn Darpariaethau Statudol Llywodraeth Cymru ar yr Asesiad Risg o Lwybrau Cerdded i’r Ysgol, fel y nodir yn Narpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014.

# 2. Aliniad Polisi

2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y gwneir darpariaethau teithio oddi mewn iddo ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol. Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi'r Mesur ar waith.

2.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr i'r ysgol 'ar gael' (diogel) i'w gerdded neu'n cael ei ystyried 'ddim ar gael' (anniogel) a'r mesurau diogelu y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y llwybr 'ar gael' (yn ddiogel) i'w gerdded neu y gall ddod yn 'ddiogel'.

2.3 Mae dogfen Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r materion a ganlyn gael eu hystyried wrth asesu llwybr;

Er mwyn i lwybr gael ei ddosbarthu'n un sydd ar gael (diogel) mae angen i'r llwybr fod;

- Yn droedffordd ddigonol barhaus ar ffyrdd sy'n cludo traffig canolig i drwm; **neu**
- "Camau i lawr" ar ffyrdd sydd â llif traffig isel ond llinellau gweld digonol i roi digon o rybudd ymlaen llaw i yrwyr a cherddwyr; **neu**
- Ar ffyrdd gyda llif traffig isel iawn, dim "camau i lawr", ond digon o linellau gweld da i roi digon o rybudd ymlaen llaw.

Os oes angen croesi ffyrdd, argymhellir bod un o'r mesurau diogelwch canlynol:

- Lloches i gerddwyr; **neu**
- Gwelededd – dylai fod yn ddigon da i ganiatáu i gerbydau stopio'n ddiogel (o ystyried y rheol cyflymder yr 85fed canradd, mae pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr); **neu**
- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinell weld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel; **neu**
- Digon o gyfleusterau croesi (er enghraifft, croesfannau sebra, pelican); **neu**
- Digon o gamau i gerddwyr wrth y goleuadau traffig (gan gynnwys llochesi angenrheidiol); **neu**
- Digon o Hebryngwyr Croesfan Ysgol (pobl lolipop).

2.4 Dylid ystyried y wybodaeth ganlynol fel y manylir yn y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr a'i chrynhoi isod;

a) Cyfyngiadau cyflymder o gwmpas neu gerllaw ysgolion;

b) Llif traffig dwy ffordd a gofnodir mewn Unedau Ceir Teithwyr (PCUs) - mae llif traffig isel yn cael ei bennu o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr, llif traffig canolig rhwng 400 ac 840 a llif traffig trwm dros 840 o gerbydau yr awr. Asesir bod ffordd â llai na 240 o gerbydau yr awr yn ddiogel i'w chroesi, sy'n cyfateb i 1 cerbyd bob 15 eiliad;

c) Mae angen dadansoddiad o fylchau mewn traffig am 5 munud yn olynol. Ystyrir bod 4 bwlch o fewn cyfnod o 5 munud o'r fath yn dderbyniol. Ar gyflymder cerdded o 1 metr yr eiliad bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad tra bydd angen bwlch mwy o tua 10 i 12 eiliad ar eraill;

d) Hanes gwrthdrawiadau blaenorol am 3 blynedd o leiaf;

e) Lled, cyflwr, a gweledEdd llwybr troed. Ar ffyrdd â llif traffig isel gellir tybio fel arfer bod llain ymyl y gall plentyn a'r rhiant sy'n ei hebrwng gamu arni pan fydd traffig yn mynd heibio yn darparu llwybr sydd ar gael;

f) Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig;

g) Dylid ystyried llifogydd posibl ac, os oes angen, nodweddion diogelwch gan gynnwys arwyddion, goleuadau, rhwystrau diogelwch;

h) Unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardal a allai gael effaith ar lwybrau cerddwyr;

i) Croesfannau rheilffordd;

j) Perygl cymdeithasol a achosir gan unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl;

k) Unrhyw newidiadau i nodweddion y bobl sy'n cerdded y llwybr.

2.5 Mae Perygl Cymdeithasol yn agored i ddehongliadau gwahanol ac mae'n oddrychol. O ran mesur perygl cymdeithasol, dylai tystiolaeth fod ar fael i nodi unrhyw beryglon o'r fath.

2.6 Wrth gynnal asesiadau risg, argymhellir bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau/asiantaethau sydd ag arbenigedd mewn (gan gynnwys cyfrifoldeb am) fynd i’r afael â pherygl cymdeithasol a’i fesur. Mae gan yr Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyfrifoldeb am droseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am faterion diogelu/amddiffyn plant.

2.7 Mae eu cyfranogiad yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth, asesu, a rheoli unrhyw risgiau o'r fath. Felly, nid yw Redstart wedi'i gomisiynu i nodi materion yn ymwneud â pheryglon cymdeithasol a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# 3. Gweithdrefnau

## 3.1 Ymweliad Safle

3.1.1 Cynhaliwyd asesiad safle ar droed i ymchwilio i'r llwybr ac i nodi peryglon / gwaith adfer posibl sydd ei angen er mwyn darparu llwybr cerdded diogel. Cafodd y llwybr ei gerdded ar adegau i ddal amodau traffig arferol yn ystod yr amser yr oedd plant ysgol yn cerdded y llwybr.

3.1.2 Rhestrir isod enghreifftiau o beryglon safle nodweddiadol a fydd yn cael eu hystyried o ganlyniad i'r asesiad cerdded:

- Rhyng-weledWith rhwng gyrwyr a cherddwyr, ar hyd y llwybr ac ar gyffyrdd bach;
- Nifer uchel o draffig wrth groesfannau a mathau o gerbydau sy'n defnyddio'r llwybr;
- Cyflwr wyneb y llwybr troed, lled defnyddiadwy, a chysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos;
- Unrhyw ddail sydd wedi gordyfu sy'n rhwystro symudiadau cerddwyr/sy'n culhau'r lled defnyddiadwy;
- Cerbydau'n parcio ar y droedffordd gan achosi rhwystr/gan gulhau'r lled defnyddiadwy.

## 3.2 Gwybodaeth i'w Darparu

*3.2.1* Mae'r wybodaeth ganlynol i'w darparu yn rhan o'r asesiad:

a) Cynllun yn dangos y llwybrau a aseswyd;


b) Adroddiad yn nodi peryglon/risgiau posibl ac adferiad posibl ar gyfer pob perygl posibl a nodwyd.

# 4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded

## 4.1 Trosolwg Llwybr

4.1.1 Mae'r llwybr yn cychwyn yng Nghanolfan Feddygol Cwm Gwyrdd, CF39 8TJ sydd ar y B4564 Tonyrefail. Mae'r llwybr yn parhau tua'r de ar hyd y ffyrdd canlynol, Heol Gelli Arael, Rhodfa Cambrian, yr A4093, Heol Gilfach, Ysgol Gymuned Tonyrefail CF39 8HG, fel y dangosir yn **Nelwedd 4.1** isod. Mae darnau di-dor o droedffordd, gyda chyfleoedd croesi a goleuadau stryd ar hyd y llwybr.

**Delwedd 4.1 – Canolfan Feddygol Cwm Gwyrdd i Ysgol Gymuned Tonyrefail (Delwedd © 2024 Airbus)**




4.1.2 Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y llwybr yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Maent yn culhau ar rai rhannau byr ac mae rhaid i gerddwyr naill ai ildio i'w gilydd neu groesi i ochr arall y ffordd. Mae disgyblion eisoes yn cerdded y llwybr hwn o Hendreforgan ac mae'r llwybr yna eisoes ar gael ac yn cael ei ddefnyddio bob dydd. Mae cysylltiadau i / o Ysgolion Cynradd y Gilfach a Threm y Mynydd i Hendreforgan eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.

4.1.3 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.1.4 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed drwy gydol y daith gan groesfannau sebra, signalau traffig, lloches ganolog a mannau croesi heb eu rheoli eraill.

4.1.5 Mae terfyn cyflymder 20mya ar waith ar hyd y rhan fwyaf o'r llwybr, lle gwelwyd bod y llif cerbydau yn gymedrol.

4.1.6 Mewn mannau, roedd angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio a gwelededd i gerddwyr

4.1.7 Mae Ffotograffau 4.1 i 4.3 a dynnwyd ar hyd y llwybr cerdded i'w gweld isod.

**Ffotograff 4.1 – Croesfan â signalau i'r gogledd o'r ganolfan feddygol**



**Ffotograff 4.2 – Rhan fer o'r llwybr troed yn culhau ar hyd llwybr troed dwyreiniol y B4564**



**Ffotograff 4.3 – Ffens ddolen gadwyn yn hongian ar lwybr troed gorllewinol y B4564**



**Ffotograff 4.4 – Materion parcio a lled y llwybr troed yn fwy cul ar y llwybr troed dwyreiniol gyferbyn â rhif 3 Heol Gelli Arael**



**Ffotograff 4.5 – Llystyfiant yn culhau'r llwybr troed gorllewinol i'r de o'r Barber Room**



**Ffotograff 4.6 – Materion parcio yn gwneud y lled defnyddiadwy yn fwy cul ar y llwybr troed dwyreiniol gyferbyn â rhif 57 Heol Gelli Arael**



**Ffotograff 4.7 – Llwybr troed ar wahân i'r gogledd o Stryd y Coed**




**Ffotograff 4.8 – Man croesi heb ei reoli gyferbyn â Grŵp Sgowtiaid Gilfach-goch**



**Ffotograff 4.9 – Man croesi anffurfiol gyferbyn â siop Family Shopper ar Rodfa'r Cambrian**



**Ffotograff 4.10 – Man croesi llydan gyda chroesfan fwy diogel ymhellach ar hyd Stryd Thomas**



**Ffotograff 4.11 – Man croesi llydan gyda chroesfan fwy diogel ymhellach ar hyd Stryd Alfred**



**Ffotograff 4.12 – Croesfan Sebra i'r gogledd o Stryd Thomas**



**Ffotograff 4.13 – Rhan fer o'r llwybr troed yn culhau a dechrau'r bont droed i'r gogledd o Stryd Thomas**



**Ffotograff 4.14 – Materion parcio ar lwybr troed yn y man croesi heb ei reoli gyferbyn â Chymdeithas Cymuned Gilfach-goch**



**Ffotograff 4.15 – Croesfan lydan rhwng llwybrau troed dwyreiniol a gorllewinol ar gyffordd y B4564 Rhodfa'r Cambrian â'r A4093**



**Ffotograff 4.16 – Croesfan wedi'i rheoli â signalau gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymuned Hendreforgan**



**Ffotograff 4.17 – Croesfan heb ei rheoli yn Nhrem y Griffin**



**Ffotograff 4.18 – Diwedd y llwybr troed gorllewinol yn Heol y Mynydd**



**Ffotograff 4.19 – Angen croesfan heb ei rheoli i gerddwyr rhwng safleoedd bysiau ar yr A4093**



**Ffotograff 4.20 – Llwybr troed dwyreiniol yn fwy cul ar yr A4093 (40mya)**



**Ffotograff 4.21 - cyrbau isel ar lwybr troed dwyreiniol ar yr A4093 (40mya) a llwybr troed yn fwy cul (tua 1.0m)**



**Ffotograff 4.22 - Man croesi heb ei reoli rhwng yr A4093 a'r B4278**



**Ffotograff 4.23 - Llwybr troed lleol yn fwy cul gyda llystyfiant yn ymledu ar y B4278**



**Ffotograff 4.24 – Llai o broblemau gwelededd yn y man croesi heb ei reoli ar gyffordd uned y cyflenwr ffensio a Heol Gilfach. Nodir fodd bynnag fod llif traffig yn isel iawn wrth fynd tuag at yr uned.**



**Ffotograff 4.25 - Llwybr troed cul gyda llain ymyl gyferbyn â Trax Tyres**



**Ffotograff 4.26 – Croesfan heb ei rheoli rhwng y llwybr troed gogleddol a deheuol**



**Ffotograff 4.27 - Llwybr troed cul gyda llystyfiant wedi gordyfu a llinell ffens yn methu ar hyd cefn y llwybr troed deheuol gyferbyn â Mynwent Trane**



**Ffotograff 4.28 - Llwybr troed cul a llystyfiant wedi gordyfu yn cyfyngu ar y lled defnyddiadwy ar y llwybr troed deheuol i'r gogledd o Dan Y Fron**



**Ffotograff 4.29 – Croesfannau â signalau rhwng Llys Caerwrangon a Bryngolau**



**Ffotograff 4.30 – Llwybr troed yn arwain i Ysgol Gymuned Tonyrefail**



# 5. Arolygon Cerddwyr / Traffig

5.1 Mae Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr yn nodi: Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig. Lle nad oes cyfleusterau croesi, dylai asesiad risg y llwybr ystyried pob croesfan ffordd ofynnol, gan gofio cyflymder a llif traffig, llinellau gweld ac ati.

5.2 Os oes angen croesi ffyrdd dylai fod:

- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinellau gweld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel. Dylai'r dadansoddiad amser bwlch gael ei ddefnyddio lle bo angen **neu**
- Llochesi i gerddwyr **neu**
- Cyfleusterau croesi (e.e. sebra, pelican, pâl ac ati) **neu**
- Cyfnod cerddwyr wrth y goleuadau traffig **neu**
- Hebryngwr Croesfan Ysgol.

5.3 Os oes angen croesi ffordd dylai'r gwelededd yn y lleoliad ganiatáu i gerbyd stopio, o ystyried cyflymder yr 85fed canradd (y cyflymder y mae 85% o'r cerbydau'n teithio islaw) o'r llif traffig. Dylid cymryd pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'n debygol y bydd angen arfer barn barhaus. Ni all unrhyw feini prawf ddarparu'r holl arweiniad nac atebion i bob sefyllfa bosibl.

5.4 Os oes rhaid croesi ffyrdd i ddefnyddio troedffordd neu i wella llinellau gweld, efallai y bydd angen rhoi cyngor ar fannau croesi diogel. Ar rai ffyrdd gwledig efallai na fydd y droedffordd yn barhaus.

5.5 Bydd yn rhaid gwneud dyfarniad gwybodus ynghylch argaeledd mannau "cam i lawr".

5.6 Gellir asesu pa mor anodd yw croesi safle drwy ystyried nifer y bylchau yn llif y traffig sy'n dderbyniol i gerddwyr. Gall traffig sy'n llifo'n rhydd greu bylchau ar hap ac yn weddol aml, ond mae cyflymderau'n tueddu i fod yn uwch, a byddai angen i fylchau fod yn hirach er mwyn croesi'r ffordd yn ddiogel.

5.7 Mae bwlch derbyniol o ran croesi o un ochr y ffordd i'r llall yn amrywio rhwng pob person. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Efallai y bydd angen bylchau mwy o tua 10 i 12 eiliad ar rai eraill.

5.8 Argymhellir bod yr arolwg yn cofnodi nifer y bylchau ym mhob cyfnod o 5 munud sy'n hwy nag amser croesi'r ffordd, gan ddefnyddio un metr yr eiliad fel y cyflymder cerdded. Mae pedwar bwlch ym mhob cyfnod o 5 munud yn dynodi ffordd y gellir ei chroesi heb ormod o oedi. Gallai bylchau hirach fod wedi'u dosbarthu'n fylchau lluosog yn hytrach nag 1 bwlch yn unig.

5.9 Gyda'r meini prawf uchod mewn golwg, cynhaliwyd arolygon traffig i sefydlu llifoedd, cyflymder yr 85fed canradd a bylchau croesi yn y lleoliadau canlynol:

5.9.1 Mae angen i gerddwyr gamu i'r ffordd neu ei chroesi cyn i'r llwybr troed fynd yn gul cyn rhif 3 Heol Gelli Arael. Mae digon o gyfleoedd i gerddwyr groesi yn y lleoliad hwn i sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos.




5.9.2 I'r gorllewin o Heol y Mynydd. Mae digon o gyfleoedd i gerddwyr groesi yn y lleoliad hwn er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos.



5.9.3 Ar ran 40mya yr A4093, mae'r llwybr troed yn culhau, ac nid oes unrhyw lwybr troed cyfagos. Ar hyn o bryd, mae cerddwyr yn ildio i'w gilydd.



5.10 Cynhaliodd Swyddogion Trafnidiaeth RhCT gyfrifiadau traffig yn y lleoliadau uchod.

5.11 Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr – Mehefin 2014 yn amlinellu'r hyn sydd ei angen wrth asesu Llif Traffig ar Ffyrdd.

5.11.1 Ystyr llif traffig isel yw ffyrdd sydd â llif traffig o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr; llif traffig canolig yw ffyrdd sydd â llif traffig rhwng 400 ac 840 cerbyd yr awr; a llif traffig trwm yw ffyrdd sydd â llif traffig o dros 840 o gerbydau yr awr.

5.11.2 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Ystyrir bod pedwar bwlch o'r fath o fewn cyfnod o 5 munud yn dderbyniol. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio 6 eiliad a lle mae'r bwlch yn fwy na neu'n hafal i 12 eiliad mae hyn wedi'i gyfrif fel 2 neu fwy o fylchau.

5.12 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig mewn 4 lleoliad gwahanol ar 2 ddiwrnod gwahanol, gyda chyfrifiadau rhwng 07:45 a 08:45 a 14:45 a 15:45. Yn unol â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr, cafodd cyfrifiad ei gynnal eto yn ystod y cyfnod y cofnodwyd traffig ar ei drymaf i gadarnhau dibynadwyedd y data.

5.13 Yn ogystal â hyn, ac yn wyneb yr amodau a nodwyd ar hyd y rhan 40mya o'r A4093, cynhaliwyd arolwg cyflymder 7 diwrnod pellach i bennu'r cyflymder 85fed canradd ar hyd y rhan lle mae'r llwybr troed yn culhau **.

5.13.1 **Lleoliad 1 – Y B4564 cyn 3 Heol Gelli Ariel - 01/10/2024**

- **Yn y bore:** 472 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 13 i 29, gyda chyfanswm o 203 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn**: 418 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 11 i 29, gyda chyfanswm o 247 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.13.2 **Ailymweld â Lleoliad 1 – Y B4564 cyn 3 Heol Gelli Ariel - 02/10/2024**

- **Yn y prynhawn:** 398 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 12 i 26, gyda chyfanswm o 236 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.13.3 **Lleoliad 2 – Yr A4093 i'r gorllewin o Heol y Mynydd - 18/09/2024**

- **Yn y bore:** 1,077 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 4 i 16, gyda chyfanswm o 97 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 982 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 6 i 14, gyda chyfanswm o 125 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.13.4 **Ailymweld â Lleoliad 2 – Yr A4093 i'r Gorllewin o Heol y Mynydd - 24/09/2024**

- **Yn y bore:** 1,129 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 5 i 12, gyda chyfanswm o 95 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.13.5 **Lleoliad 3 – Yr A4093 i'r gogledd o Cedarwood Drive – 18/09/2024**

- **Yn y bore**: 566 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 5 i 28, gyda chyfanswm o 196 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 551 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 8 i 28, gyda chyfanswm o 231 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.13.6 **Ailymweld â Lleoliad 3 – Yr A4093 i'r gogledd o Cedarwood Drive - 24/09/2024**

- **Yn y bore**: 531 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 12 i 28, gyda chyfanswm o 223 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.13.7 ** **Ailymweld â Lleoliad 3 – yr A4093 i'r gogledd o Cedarwood Drive am 7 diwrnod ar gyfer y cyflymder 85fed canradd rhwng 12/12/2024 a 18/12/2024**

- **Tua'r dwyrain**: Y cyflymder 85fed canradd wedi'i gofnodi - 41.6 mya - gyda llif cyfartalog 5 diwrnod o 6670.
- **Tua'r gorllewin**: Y cyflymder 85fed canradd wedi'i gofnodi - 39.7 mya - gyda llif cyfartalog 5 diwrnod o 6836.
- **Llif Dwyffordd**: Y cyflymder 85fed canradd wedi'i gofnodi - 41 mya - gyda llif cyfartalog 5 diwrnod o 13506.

**Nodwyd bod y llif traffig yn yr amrediad canolig yn y lleoliad hwn ar gyfer cyfnodau'r bore a phrynhawn, gyda'r cyflymder 85fed canradd ar neu tua'r terfyn cyflymder o 40 mya.**

5.13.8 **Lleoliad 4 – Y B4278 Heol Gilfach i'r ystad ddiwydiannol - 13/09/2024**

- **Yn y bore:** 67 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 15 i 50, gyda chyfanswm o 380 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 34 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 39 i 50, gyda chyfanswm o 519 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.13.9 **Ailymweld â Lleoliad 4 – Y B4278 Heol Gilfach i'r ystad ddiwydiannol - 16/09/2024**

- **Yn y bore:** 76 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 19 i 44, gyda chyfanswm o 392 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

# 6. Materion Cymdeithasol

6.1 Nid oes gan y rhan o'r llwybr troed ar hyd y rhan 40 mya o'r A4093 rhwng Heol y Mynydd a Heol Gilfach unrhyw adeiladau sy'n edrych drosti (mae'r eiddo cyfagos wedi'u rhwystro gan y ffensys terfyn cefn) na gwyliadwriaeth naturiol am tua 500m, ac eithrio traffig sy'n mynd heibio neu gerddwyr eraill, gweler **ffotograff 6.1** isod.

**Ffotograff 6.1 – Gwyliadwriaeth naturiol gyfyngedig ar hyd y rhan 40mya o'r A4093 rhwng Heol-y-Mynydd a Heol Gilfach**



6.2 Efallai y bydd materion eraill nad ydynt yn amlwg o asesiad ar droed, y byddai grwpiau defnyddwyr eraill yn eu nodi. Byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried yr agweddau hyn gyda'r Heddlu ac asiantaethau diogelu eraill.

# 7. Data Gwrthdrawiadau

7.1 Ymchwiliwyd i ddata gwrthdrawiadau cerddwyr ar gyfer y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 (wedi'u dilysu) trwy Crashmap.co.uk a data Gwrthdrawiadau Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu. Sylwch fod y Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i aseswyr ymgorffori 3 blynedd o hanes gwrthdrawiadau wrth asesu llwybr.

7.2 Mae'r data gwrthdrawiadau wedi cael ei ymchwilio yn ystod yr amseroedd y byddai plant ysgol yn cerdded y llwybr i nodi amodau traffig arferol yn ystod yr amser. Mae’r amseroedd hyn wedi’u nodi'n 07:00 – 09:30 ar gyfer taith yn y bore, a 14:30 – 17:00 ar gyfer taith yn y prynhawn.

7.3 Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr ar hyd y llwybr yn ystod y cyfnod a aseswyd.

# 8. Trosolwg Llwybr

8.1 Mae'r llwybr o fewn terfynau cyflymder 40/30/20mya.

8.2 Mae troedffyrdd di-dor mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.3 Mae yna rannau ar wahân o lwybrau troed llai nag 1m o led ar hyd y B4564 Heol Gelli Arael ar ochr ddwyreiniol y ffordd gerbydau ger yr eiddo. Rhaid i gerddwyr groesi'r ffordd a defnyddio'r llwybr troed gorllewinol oherwydd bod cerbydau wedi'u parcio ar y llwybr troed cul. Er bod gwelededd yn y lleoliad hwn wedi'i gyfyngu gan gerbydau wedi'u parcio ar adeg yr asesiad ac wedi'i gyfyngu gan geometreg y ffordd, gellir gwneud y groesfan yn fwy diogel cyn y lleoliad lle mae gwelededd cerbydau i'r ddau gyfeiriad yn bodloni meini prawf y canllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Mae carfanau plismona cymdogaeth leol hefyd yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.4 Mae mannau croesi heb eu rheoli rhwng llwybr troed dwyreiniol a gorllewinol Rhodfa'r Cambrian lle gwelwyd cerbydau wedi'u parcio ar y llwybr troed. Er ei bod yn ymddangos bod gwelededd yma wedi'i gyfyngu gan gerbydau wedi'u parcio a geometreg y ffordd, gellir gwneud y groesfan yn ddiogel cyn y lleoliad lle mae gwelededd cerbydau i'r ddau gyfeiriad yn bodloni meini prawf y canllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Mae carfanau plismona cymdogaeth leol hefyd yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.5 Mae rhan leol o'r llwybr troed ar yr A4093 (adran 40mya) lle mae'r rhan fwyaf o'r llwybr troed yn mesur tua 1.1m i 1.4m o led, gyda llain ymyl 300-400mm rhwng cefn y llwybr troed a ffens ffin yr eiddo. Roedd llwybr troed lled addas ar gael (gyda grisiau i'r cefn) ar gyfer y rhan fwyaf o'r llwybr. Fodd bynnag, dros ddwy isran o tua 10m o hyd (rhan i lawr yr allt) a 50m o hyd (rhan i fyny'r allt), mae lled y llwybr troed yn lleihau i tua llai na 1.0m. Mae ffens ffin eiddo yng nghefn llwybr troed yn yr ardaloedd hyn a oedd yn atal cerddwyr rhag camu i'r llain ymyl. Ar hyn o bryd, mae cerddwyr yn ildio i'w gilydd.

8.6 Mae arolygon yn dangos mai cyflymder cerbydau ar yr 85fed canradd yw tua'r terfyn cyflymder o 40 mya. Er mai canolig yw llifau cerbydau, gan amrywio rhwng 531 a 566 o gerbydau yr awr, mae yna ddigon o welededd i gerbydau ac mae digon o gyfleoedd i gerddwyr gamu i'r ffordd gerbydau i fynd heibio os oes angen (gweler 5.12.5 a 5.12.6). Gwelwyd hefyd bod cerbydau ar y lôn orllewinol (i fyny'r allt) tuag at linell ganol/canol y ffordd ac felly i ffwrdd o'r pafin. Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu. Ni chofnodwyd unrhyw wrthdrawiadau ar hyd y rhan hon o'r A4093 yn y cyfnod o 5 mlynedd (rhwng 2018 a 2022).

8.7 Lled y man croesi heb ei reoli ar draws Cyffordd Heol Gilfach (mynedfa i Tire Trax) yw tua 30m, ac mae gwelededd cyfyngedig ond defnydd isel iawn. Ar hyn o bryd, mae cerddwyr yn symud yn ofalus ar draws y gyffordd. Mae llifau cerbydau yn isel iawn, gan amrywio rhwng 34 a 76 cerbyd yr awr, gyda rhwng 380 a 519 o fylchau o 6 eiliad yr awr.

8.8 Mae'r llwybr troed cyswllt deheuol o'r fynedfa i Tire Trax a hyd at gyffordd Llys Caerwrangon tua 900mm mewn rhai lleoliadau, a allai olygu bod angen i gerddwyr groesi i ochr arall y ffordd er mwyn osgoi'r llwybr troed cul.

8.9 Gwelwyd bod coed a llystyfiant yn hongian dros rannau o'r llwybr troed ar hyd y llwybr fel y nodir yn Adran 4. Gyferbyn â Mynwent Trane, roedd y ffens bresennol wedi cwympo mewn mannau, gan wneud cerddwyr o bosibl yn agored i wahaniaeth o ran lefelau wedi'i guddio gan lystyfiant. Dylid trwsio llinell y ffens i fynd i'r afael â'r perygl a lliniaru'r risg.

8.10 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.11 Ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi’i gynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.12 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion. Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan â Signalau – Y B4564 i'r gogledd o Ganolfan Feddygol Cwm Gwyrdd.
- Croesfan Sebra – Rhodfa Cambrian i’r dwyrain o Stryd Thomas.
- Croesfan â Signalau – Yr A4093 i'r gogledd o Ysgol Gynradd Hendreforgan.
- Croesfan â Signalau - Cyffordd Bryngolau a Llys Caerwrangon

8.13 Nid yw eiddo preswyl neu fasnachol yn edrych dros ran ar hyd y llwybr ond caiff ei defnyddio’n helaeth naill ai gan draffig sy’n mynd heibio neu gerddwyr:

➢ Y llwybr troed ar hyd yr A4093 rhwng Heol y Mynydd a Heol Gilfach am tua 1000m.

8.14 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig mewn 4 lleoliad gwahanol ar 6 diwrnod gwahanol, fel y nodir yn Adran 5, gyda chyfrifiadau rhwng 07:45 a 08:45 a 14:45 a 15:45. Cynhaliwyd cyfrifiadau eto mewn lleoliadau lle'r oedd y llif traffig fwyaf trwm. Manylir ar leoliadau’r safleoedd a’r cyfrifiadau traffig isod:

- **Lleoliad 1** – Y B4564 cyn 3 Heol Gelli Ariel
- **Lleoliad 2** – Yr A4093 i'r gorllewin o Heol y Mynydd
- **Lleoliad 3** – Yr A4093 i'r gogledd o Cedarwood Drive
- **Lleoliad 4** – Y B4278 Heol Gilfach i'r ystad ddiwydiannol

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

8.14.1 Cynhaliwyd arolwg cyflymder 85fed canradd yn **Lleoliad 3** ar yr A4093 i’r Gogledd o Cedarwood Drive rhwng 12/12/2024 a 18/12/2024.

- **Tua'r dwyrain**: Y cyflymder 85fed canradd wedi'i gofnodi - 41.6 mya - gyda llif cyfartalog 5 diwrnod o 6670.
- **Tua'r gorllewin**: Y cyflymder 85fed canradd wedi'i gofnodi - 39.7 mya - gyda llif cyfartalog 5 diwrnod o 6836.
- **Llif Dwyffordd**: Y cyflymder 85fed canradd wedi'i gofnodi - 41 mya - gyda llif cyfartalog 5 diwrnod o 13506.

**Nodwyd bod y llif traffig yn yr amrediad canolig yn y lleoliad hwn ar gyfer cyfnodau'r bore a phrynhawn, gyda'r cyflymder 85fed canradd ar neu tua'r terfyn cyflymder o 40 mya.**

# 9. Casgliad ac Argymhellion

9.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i'w gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. ***Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded*** i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Asesu sefydlogrwydd y llinell ffens bresennol gyferbyn â Mynwent Trane. Os bernir bod ffensys yn anniogel/peryglus, dylid gosod rhai newydd yn eu lle.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn parhau i gael ei gyfyngu gan geir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd â charfanau plismona cymdogaeth leol.

- Darparu croesfan heb ei rheoli (cyrbiau isel a phafinau botymog) rhwng y ddau safle bws ar yr A4093.

- Adolygu'r ffens concrit a'r ffens rheilen ddur ar hyd y rhannau cul o'r llwybr troed ar yr A4093 gyda'r bwriad o gael gwared ar rannau pellach o'r rheiliau dur. Bydd hyn yn helpu i wella argaeledd mannau camu i lawr i'r llain ymyl gefn. Fodd bynnag, nodir y gellir gwneud hyn yn ddiogel dim ond os yw'r llain ymyl yn sefydlog. Gweler ***paragraff 8.5*** am fanylion pellach.

REDSTART

St David's House
Pascal Close
St Mellons
Cardiff
CF3 0LW

www.redstartwales.com